# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 13 Awst 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth yw gwerth unigol y lletygarwch y derbyniodd y Gweinidog oddi wrth Undeb Rygbi Cymru, y cyfeirir ato yn yr ateb i WAQ27261. (WAQ27673)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar a yw wedi trafod, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, Academi Rygbi arfaethedig Undeb Rygbi Cymru ar safle Island Farm ag Undeb Rygbi Cymru, ac os ydyw, pryd. (WAQ27675) **R**

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** Gan gyfeirio at WAQ27260, a fyddai Prif Weinidog Cymru yn cyhoeddi cofnodion y cyfarfod. (WAQ27722)

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** Gan gyfeirio at WAQ27261, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y materion a drafodwyd yn ystod ei gyfarfod ag Undeb Rygbi Cymru, ac a wnaiff gadarnhau a drafodwyd Academi arfaethedig Undeb Rygbi Cymru yn Island Farm. (WAQ27723)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Gan gyfeirio at yr ymateb i WAQ26673, a all y Gweinidog gadarnhau a gafodd y cyngor a gyhoeddwyd ei olygu mewn unrhyw ffordd, ac os cafodd, pam, a pha elfennau a gafodd eu dileu/eu diwygio. (WAQ27697)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pryd yr hysbysodd y Gweinidog Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr yn ffurfiol ynghylch y penderfyniad i beidio â galw cais cynllunio Island Farm i mewn. (WAQ27672)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa broses y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei dilyn, yn dilyn penderfyniad gan y Cynulliad i beidio â galw cais cynllunio i mewn. (WAQ27674)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A fydd y Gweinidog yn sicrhau na fydd y taliadau iawndal i ffermwyr y mae TB mewn Gwartheg wedi effeithio ar eu da byw yn cael eu lleihau hyd nes y mae'r Llywodraeth yn cymryd camau pendant i waredu'r clefyd yng Nghymru. (WAQ27682)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A fydd modiwleiddio gwirfoddol yn parhau yng Nghymru ar ôl i lefel modiwleiddio gorfodol ledled yr UE gyrraedd 5%. (WAQ27683)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gyfran o'r hyn a gesglir drwy fodiwleiddio gwirfoddol a gedwir yng Nghymru ar ôl i gynllun modiwleiddio gorfodol ledled yr UE gael ei gyflwyno ar lefel is na'r cynllun modiwleiddio gwirfoddol yng Nghymru. (WAQ27684)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Yn dilyn astudiaeth arfaethedig Prifysgol Abertawe (Ebrill 2002) ynghylch monitro ansawdd dwr pysgod cregyn, a allwch gadarnhau y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddarparu arian cyfatebol sy'n gyfwerth â chais Pwyllgor Pysgodfeydd De Cymru am £80,000 o arian Amcan Un ar gyfer gwerthuso dwr Moryd Byrri. (WAQ27685)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa grantiau gan y Swyddfa Gymreig (cyn Mai 1999) / Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd wedi'u rhoi i Tai Cantref mewn perthynas â thai cymdeithasol a adeiladwyd gerllaw Lôn Llynlloedd, Machynlleth, ac a ddosbarthwyd Tystysgrif Gwblhau gan yr Awdurdod Cynllunio cyn y cawsont eu talu'n llawn. (WAQ27686)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ofynion y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu pennu ar gyfer pobl sy'n derbyn cymorth cyhoeddus i ddarparu tai cymdeithasol er mwyn sicrhau bod datblygiadau wedi'u cwblhau a'u bod yn cydymffurfio'n llawn ag amodau cynllunio cyn y telir arian cyhoeddus yn llawn. (WAQ27687)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ofynion cyfreithiol sy'n bodoli i sicrhau bod awdurdodau cynllunio yn gorfodi amodau cynllunio er mwyn diogelu buddiannau trydydd partïon rhag ofn y bydd datblygwyr yn amharu ar eu hawliau o ran eiddo. (WAQ27688)

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith ceir a adewir ar amgylchedd De Ddwyrain Cymru. (WAQ27707)

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** A fydd Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio sicrhau amrywio’r diffiniad o ‘remoteness’ yng nghyd destun y cyfarwyddyd o Ewrop ar Ddifa Anifeiliaid i gynnwys mynydd-dir uchel Cymru. (WAQ27733) **W**

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** A yw Llywodraeth y Cynulliad wedi ceisio dylanwadu ar ddiffiniad DEFRA o ‘remoteness’ yng nghyd destun y cyfarwyddyd o Ewrop ar Ddifa Anifeiliaid. (WAQ27734) **W**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Gan gyfeirio at WAQ27391, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o arian cyfatebol y mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi'i roi i gefnogi a

noddi'r digwyddiad busnes, ac eithrio'r brecwast bys a bawd, a drefnir gan Sony, y Siambr Fasnach, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr, ELWa a MasnachCymru Rhyngwladol yng Nghanolfan Dechnoleg Sony, Pen-coed a gynhelir ar 24 Medi 2003. (WAQ27670)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Band Eang Cymru. (WAQ27671)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint o arian y mae'r Cynulliad a'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad wedi'i wario ar hyrwyddo manteision band eang. (WAQ27677)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni targedau Band Eang Cymru. (WAQ27678)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint o fusnesau bach sydd wedi defnyddio canolfannau TGCh i gynorthwyo busnesau ers mis Medi 2002. (WAQ27680)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ganolfannau TGCh i gynorthwyo busnesau. (WAQ27681)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A all y Gweinidog roi cyfrif o faint o aelodau masnach sydd gan Bwrdd Croeso Cymru ar hyn o bryd a sut mae hyn yn cymharu â'r llynedd. (WAQ27689)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A all y Gweinidog gadarnhau a oes gan Bwrdd Croeso Cymru gynlluniau preifat neu fwriadau i waredu'r System Rheoli Cyrchfannau (DMS). (WAQ27690)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** Gan gyfeirio at WAQ27554 - A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r dyddiad disgwyliedig / yr amserlen ar gyfer cwblhau'r ymchwiliadau presennol a chyflwyno mesurau arafu traffig ar yr A495 yn Llanbedr Dyffryn Clwyd. (WAQ27691)

**Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar amseriad y cyhoeddiad i waredu WEFO a gweinyddu cyllid Ewropeaidd oddi mewn i'r Cynulliad ac ar pryd y gwnaed y penderfyniad. A wnaiff hefyd egluro pam na hysbysodd Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth y Cynulliad ynghylch y penderfyniad yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2003. (WAQ27702)

**Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau â'r Trysorlys ynghylch cyllid ychwanegol i Gymru dros ac uwchben bloc Barnett, yn unol â gwerth cynyddol rhaglenni Ewropeaidd yng Nghymru yn sgîl ailbrisio'r Ewro. (WAQ27725)

**Elin Jones (Ceredigion);** Pa lefel o gyllid ychwanegol uwchben a thros bloc Barnett y mae Trysorlys y DU yn ei ddarparu i'r Cynulliad Cenedlaethol yn sgîl ailbrisio'r Ewro.

(WAQ27726)

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y swyddi sydd wedi'u creu yn y sector cyhoeddus yn ystod y 12 mis diwethaf yn Ne Ddwyrain Cymru. (WAQ27705)

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y swyddi sydd wedi'u creu yn y sector preifat yn ystod y 12 mis diwethaf yn Ne Ddwyrain Cymru. (WAQ27706)

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau i leihau tagfeydd traffig yn Ne Ddwyrain Cymru. (WAQ27710)

**Michael German (Dwyrain De Cymru);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau y darperir band eang ym Mlaenau, Brynmawr a Blaenafon. (WAQ27729)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A gafodd Llywodraeth y Cynulliad ei rhybuddio ymlaen llaw bod AWCO (Aluminium and Wire gynt) yn bwriadu symud o Gymru (WAQ27735)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gymorth grant, os o gwbl, a roddwyd i Merlyn Contract Packers i adleoli i safle AWCO yn Fabian Way, Abertawe. (WAQ27736)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gymorth grant, os o gwbl, a roddwyd i '4 The Environment' i adleoli i safle AWCO yn Fabian Way, Abertawe. (WAQ27737)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa reswm a roddwyd dros adleoli AWCO (Aluminium and Wire gynt) i Bae Baglan. (WAQ27738)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gymorth grant, os o gwbl, a roddwyd i AWCO (Aluminium and Wire gynt) i adleoli i Bae Baglan. (WAQ27739)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau a gymerir i sicrhau y gall pawb yng Nghymru dderbyn gwasanaeth Deintydd GIG. (WAQ27676)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl cyflawni'r targedau iechyd a bennwyd ym Maniffesto ei phlaid ar gyfer Etholiadau'r Cynulliad ym 1999. (WAQ27679)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A all y Gweinidog gadarnhau a yw amseroedd aros am driniaeth orthopedig yn cynyddu yng Nghymru yn sgîl prinder gwasanaethau rhewmatoleg. (WAQ27692)

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y deintyddion GIG sydd ar gael yn Ne Ddwyrain Cymru. (WAQ27693)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa wasanaethau a thriniaethau sydd ar gael ar gyfer cleifion dementia. (WAQ27694)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar a yw Ebixa ar gael i gleifion dementia ac a yw'n cael ei ragnodi iddynt. (WAQ27695)

**Brynle Williams (Gogledd Cymru);** Pa fesurau sy'n bodoli i sicrhau bod Ymddiriedolaethau GIG Cymru yn rhoi canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) ar waith mewn perthynas â chyffuriau dementia. (WAQ27696)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** Pa ddarpariaeth sy'n bodoli i deuluoedd sy'n cyflogi Nani dibreswyl i ofalu am eu plant cyn oedran ysgol hawlio cymorth â ffïoedd gofal plant. Os oes darpariaeth o'r fath, pa ganran o'r ffïoedd y gellir ei hawlio ac a yw'n dibynnu ar y ffaith bod y Nani wedi'i chofrestru. (WAQ27698)

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** Oes unrhyw fwriad i gyflwyno cynllun yng Nghymru, yn debyg i'r un sydd ar waith yn Lloegr, lle gall Gwarchodwyr Plant cofrestredig gyflwyno cais i fod yn Ofalwyr Cartref Cymeradwy, gan eu galluogi i ofalu am blant yng nghartrefi teuluoedd. (WAQ27699)

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y cartrefi gofal yng Nghymru sydd wedi cau ers mis Ionawr 2002. (WAQ27711)

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y cartrefi gofal yn Ne Ddwyrain Cymru sydd wedi cau ers mis Ionawr 2002. (WAQ27712)

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** Beth yw cynlluniau'r Gweinidog o ran rhwystro rhagor o gartrefi gofal yn Ne Ddwyrain Cymru rhag cau. (WAQ27713)

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** Pa ddarpariaethau sy'n bodoli i rwystro rhagor o gartrefi gofal yn Ne Ddwyrain Cymru rhag cau. (WAQ27714)

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog egluro pam mae cyfanswm nifer y gwelyau yn y GIG wedi lleihau ers 2000. (WAQ27715)

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog egluro pam y mae Rheolwyr yn cael eu recriwtio i'r GIG yng Nghymru yn gyflymach na nyrsys. (WAQ27716)

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog egluro sut mae Cymru'n cymharu â gwledydd eraill Ewrop o ran rhestrau aros y GIG. (WAQ27717)

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog egluro pam y mae rhestrau aros wedi cynyddu ers 1999 er gwaethaf y cynnydd o ran cyllid i'r GIG yng Nghymru. (WAQ27719)

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y deintyddion GIG sydd ar gael yn Ne Ddwyrain Cymru. (WAQ27720)

**David Davies (Mynwy);** Faint mae'r Cynulliad yn ei gyfrannu ar hyn o bryd i helpu preswylwyr sy'n ariannu eu hunain mewn Cartrefi Nyrsio yng Nghymru. (WAQ27731)

**David Davies (Mynwy);** Pryd fydd cyfraniad y Cynulliad i helpu preswylwyr sy'n ariannu eu hunain mewn Cartrefi Nyrsio yng Nghymru yn cael ei godi nesaf. (WAQ27732)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** A wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd na fydd cwtogi ar gyllid colegau Addysg Bellach yn y Gogledd-Orllewin yn y flwyddyn 2004-05, yn benodol Coleg Meirion Dwyfor a Choleg Menai. (WAQ27700) **W**

**Alun Ffred Jones (Caernarfon);** Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu sicrhau bod cyllid digonol ar gael i golegau sy'n cynnig cyrsiau dwyieithog yn y flwyddyn 2004-05. (WAQ27701) **W**

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** A all y Gweinidog gadarnhau y byddai'n gwrthwynebu unrhyw gamau i gynyddu cyfraddau llog ar fenthyciadau i fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru. (WAQ27708)

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cynnal ynghylch cyfraddau llog benthyciadau i fyfyrwyr. (WAQ27709)

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau canran y myfyrwyr llawnamser ym Mhrifysgolion Cymru sy'n elwa ar Grantiau Dysgu'r Cynulliad. (WAQ27718)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** Gan gyfeirio at WAQ27644, a wnaiff y Gweinidog egluro'r oedi o ran cyhoeddi dyddiad yr etholiadau lleol. (WAQ27721)

**Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau â'r Trysorlys ynghylch cyllid ychwanegol i Gymru dros ac uwchben bloc Barnett, yn unol â gwerth cynyddol rhaglenni Ewropeaidd yng Nghymru yn sgîl ailbrisio'r Ewro. (WAQ27724)

**Elin Jones (Ceredigion);** Pa lefel o gyllid ychwanegol uwchben a thros bloc Barnett y mae Trysorlys y DU yn ei ddarparu i'r Cynulliad Cenedlaethol yn sgîl ailbrisio'r Ewro. (WAQ27727)

**Elin Jones (Ceredigion);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau â'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ynghylch arbedion o fewn y gyllideb yn y flwyddyn ariannol hon a'r flwyddyn ariannol nesaf. (WAQ27728)

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** Beth yw cynlluniau'r Gweinidog o ran ei gwneud yn haws i bobl anabl ddefnyddio gorsafoedd pleidleisio erbyn yr etholiadau Llywodraeth Leol yn 2004. (WAQ27730)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau i hyrwyddo chwaraeon ar gyfer pobl ddall yng Nghymru. (WAQ27703)

**Laura Jones (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynlluniau i hyrwyddo chwaraeon ar gyfer pobl anabl yng Nghymru. (WAQ27704)